

Y Prifardd Elwyn Edwards yn sôn am waith wisgi ac ymweliad Michael Collins â'r Bala

Tua dwy filltir a hanner o'r Bala i gyfeiriad Trawsfynydd mae pentre'r Fron-goch ac mae yn hawdd iawn i chwi fynd heibio yn y car heb sylwi ei fod yno o gwbl. Ar fin y ffordd mae yno dri thŷ, siop, Ysgol a Swyddfa Bost, a lled cae o'r ffordd fawr ceir stad o dai unllawr a llond dwrn o dai. Lle digon tawel a di-ffwrst ydyw heddiw, ond nid felly y bu.

Yn 1897 adeiladwyd Gwaith Wisgi yno gan Mr R. Lloyd Price, perchennog stad y Rhiwlas ger y Bala, a rhyw Robert Willis ar gost o tua chan mil o bunnau, a oedd yn swm enfawr yr oes honno. Dewiswyd Fron-goch am fod dyfroedd afon Tryweryn mor bur a hefyd am ei fod yn ddŵr y fawnog ac felly yn feddal ei flas. Yn ogystal 'roedd yn lle hwylus iawn i gludo'r cynnyrch oddi yno gan fod y rheilffordd gerllaw. Codwyd tai i reolwyr y gwaith a châi oddeutu deg ar hugain o bobl eu cyflogi yno. Mae'n rhaid eu bod yn griw go ddewr i weithio yn y fath le yn yr oes honno, oherwydd cryfder crefydd a'r mudiad dirwestol yn yr ardal. Dywedir bod y ddiod yn cael ei symud o'r lle i'w werthu wedi nos rhag ofn ymosodiadau'r ardalwyr.

Dengys y penillion isod o waith Gwaenfab y teimlad lleol a oedd yn erbyn y gwaith:

GWAITH WISCI FRONGOCH

Af i'r Fron-goch, froch ei fri — am wirod,

Dyma Royal Wisci;
Llys d----l, i arllwys dyl
O anghlod ar fy ngwlad i.

Hen feddwon Sir Feirionnydd,
Ymgwsgluch at eich gilydd,

I Fron-goch;
Pwy fyddai yn sychedig
Pan ellir am ychydig
Gael wisci bendigedig
Yn Fron-goch?
Mae Meddwon yn barchedig,
Yn Fron-goch.

Pa ddrwg sydd ar y gwirod
Ac yfed tipyn gormod,
Yn Fron-goch?
Rhown bellach daw ar Sandy,
Ag uchel dwrw Paddy,
Byth mwyach fe fydd Taffy
Yn Fron-goch?
Yn d'wysog byd y wisci,
Yn Fron-goch.

Paham nad all y Cymro
Gael meddwi pan y mynno,
Yn Fron-goch?
Bod heb anghenion buddiol
Oedd bechod anfaddeuol —
Caed hyn oedd angenrheidiol
Yn Fron-goch;
Fe lifa bendith oesol
O Fron-goch.

Dim llaeth na glasdwr mwyach,
Fe gafwyd diod iachach
Yn Fron-goch;
Pob meddyg yn y Bala
All fynd i Patagonia,
Cawn wisci cryf i'n gwella
Yn Fron-goch;
Rhoed angau yn y ddalfa
Yn Fron-goch.

Ac fe ddaw'r diafol bellach
Am dro i Gymru'n amlach,
I Fron-goch;
A thyrfa o elyllon
Yn dilyn wrth ei gynffon,
I fyny hefo'r afon
I Fron-goch;
Derbyniant eu gwobrwyon
Yn Fron-goch.

Daw hen ysbrydion hynod
Yn lluoedd i'w cyfarfod,
I Fron-goch;
Ysbrydion gwasanaethgar
Hen gadfridogion beiddgar,
Bob un yn galw ei gymhar
I Fron-goch;
I gadw gŵyl ddiolchgar
Yn Fron-goch.

Daw mwyach 'run pysgodyn
I fyny y Tryweryn,
I Fron-goch;
Brithyllod a ymfudant,
Llyswod a'u dilynant,
A'r holl eogiaid nofiant
O Fron-goch,
I fyny Aberharnant,
O Fron-goch.

Wel bellach rhaid i minnau
Yn sydyn droi fy sodlau
Ar Fron-goch;
Rhag ofn daw 'Nic' o'i loches,
I'm taflu am ddweud ei hanes
I le sydd yn fwy cynnes;
Na Fron-goch;
Efe yw *Boss* y busnes
Yn Fron-goch.

Canodd hefyd: ANERCHIAD I DDIWYGIAD DIRWESTOL FU YNG NGHWMTIRMYNACH

Mae bechgyn Cwmtirmynach
Yn gwella, 'n dod yn gallach,
Os bu'n y fro, ryw rai o'u co'
Ymbwylllo wnânt hwy bellach.

Yng Nghwmtrimynach swynol
Bu cyfnewidiad grasol,
'Does undyn mwy, mewn llan na
phlwy,
A feiddia'i alw'n feddwol.


Y llanciau a'r henafgwyr,
Sy'n dyfod yn ddirwestwyr,
Ond ambell un heb fawr o lun
O syniad beth yw synnwyr.

Fe ddaw y gwagedd siriol,
A'r merched ieuainc swynol,
Bron o bob tŷ, ymlaen yn hy'
I restr y llu dirwestol.

Ni waeth pa faint o freci
Gaiff yn Fron-goch ei ferwi,
Fydd yn Cwm, 'run cefn yn llwm
Ei wisg trwy yfed wisci.

Ac os yw'r Queen Victoria
Yn noddi wisci'r Bala
Nid ydyw hi, er maint ei bri,
Heb goll, nid hi yw'r galla.

ROYAL
Welsh Whisky
As Supplied to H.M. the Queen & H.R.H. the Prince of Wales.



The WELSH WHISKY DISTILLERY Co., Ltd.
Frongoch, Nr. Bala, North Wales.

The Only Distillery in Wales. | Distillers from Pure Malt Only.

WHOLESALE AGENTS —
HALL & GRAY, 4, Walbrook, LONDON, E.C.
O. R. HAIG, 12, Mark Lane, LONDON, E.C.
J. R. PHILLIPS & Co., Ltd., Nelson Street, BRISTOL.
EDWARD YOUNG & Co. Ltd., 11, Seal Street, LIVERPOOL.

SECRETARY —
EDWARD NICHOLLS, 18, Walbrook, LONDON.

CERTIFICATE OF ANALYSIS.
GREAT TOWER STREET, E.D.
November 18th, 1895.

I hereby certify that I have submitted to very careful chemical analysis a sample of the Welsh Whisky Distillery Company's Whisky, and find that it possesses great purity of composition, is thoroughly matured, and entirely free from all constituents of an injurious or undesirable character. It is soft and pleasing to the palate, possesses a fine aroma, and bouquet, and I have every confidence in pronouncing it to be a perfectly sound and wholesome Whisky.

(Signed) GRANVILLE H. SHARPE, F.C.S., &c.,
ANALYST,
Principal of the Liverpool College of Chemistry.

May be obtained from all Stores and Spirit Dealers in the Kingdom.

Os nad yw'r Queen yn foddlon
Os na chaiff wisci ddigon,
Mewn moes a bri, mae'n merched
ni,
'N ei churo hi a'i choron.

ac yn y blaen.

Ond ni pharodd y fenter yn hir
ac aeth y cwmni yn fethdalwyr yn
1900. Bu'r adeiladau helaeth yn
wag am rai blynyddoedd hyd at
y Rhyfel Byd Cyntaf pryd y
trowyd hwy yn Garchar Rhyfel i
Almaenwyr a Gwyddelod. Bu
farw rhai o'r Almaenwyr a
chladdwyd hwy ym mynwent
Eglwys Fron-goch, ond ymhen
blynyddoedd codwyd y cyrff a'u
hailgladdu yn Lloegr.

Yn 1916 bu Gwrthryfel y Pasg
yn Iwerddon, pan gododd nifer
o Wyddelod yn erbyn gormes y
Sais yn eu gwlad. Wedi'r
gwrthryfel aed â channoedd
ohonynt i garchar Knutsford yn
Swydd Caer a charchardai eraill
yn Lloegr.

Yn ei lyfr *With The Irish in
Fron-goch*, The Talbot Press,
Dublin 1917 mae'r awdur. W. J.
Brennan Whitmore, yn dweud i
1,836 ohonynt gael eu hanfon i'r
gwrsyll yn Fron-goch, ond
rhyddhawyd rhai gan eu bod yno
ar gam a gostyngodd y rhif i tua
phump neu chwe chant. 'Roedd
yno ddau wersyll, Gwersyll y De
a Gwersyll y Gogledd. Gwersyll
y De oedd hen adeiladau y

gwaith Wisgi tra oedd Gwersyll
y Gogledd yn uwch i fyny i
gyfeiriad Capel Celyn. Rhwng y
ddau 'roedd ffordd yn arwain at
yr orsaf drên ar y lein o'r Bala i
Flaenau Ffestiniog a chae sydd
wedi ei leoli y tu ôl i'r Swyddfa
Bost. Yn y cae yma y
chwaraewyd y gêm Hurley
Genedlaethol gyntaf erioed, sef
dau dîm o fysg y carcharorion yn
erbyn ei gilydd. Cytiau pren
oedd Gwersyll y Gogledd i gyd
ac mae un ohonynt yn dal yno
heddiw ac yn cael ei ddefnyddio
gan Sefydliad y Merched Fron-
goch a'r Cylch.

Disgrifia Whitmore
adeiladau'r gwaith wisgi fel rhai
oer iawn yn y nos a chwilioeth
yn ystod y dydd a châi'r
carcharorion eu plagio gan bla o
lygod mawr yn barhaol.
Penderfynodd y Gwyddelod mai
nhw ac nid yr awdurdodau a
fyddai yn cadw trefn yn fewnol
yn y carchar a threfnwyd na
fyddai neb yn gwneud dim os
oedd yn groes i'r graen a heb sêl
bendith yr arweinwyr
Gwyddelig. Canlyniad hyn oedd
bod y gwrsyll wedi cael ei droi,
yng ngeiriau Whitmore, yn
Academi Filwrol i'r
gwrthryfelwyr. Yn y Fron-goch y
cynllwynwyd parhad y rhyfel
dros ryddid. Yn eu mys 'roedd

(parhad ar dudalen 14)